**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Ardaloedd Menter

Rhagfyr 2013

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8120
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: PwyllgorCyllid@cymru.gov.uk


Mae gwybodaeth am y Pwyllgor, ei aelodau, ei gylch gwaith a'i gyhoeddiadau blaenorol i'w chael yn: **http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgCommitteeDetails.aspx?ID=229**

Mae rhestr o dystion a thystiolaeth lafar ac ysgrifenedig sy'n ymwneud â'r adroddiad hwn ar gael yn: **http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=5722**


© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Ardaloedd Menter

Rhagfyr 2013

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Y Pwyllgor Cyllid**

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Rôl y Pwyllgor Cyllid yw gweithredu'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 19. Mae hyn yn cynnwys ystyried unrhyw ddefnydd ar adnoddau gan Gomisiwn y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, ac yn benodol cyflwyno adroddiad yn ystod cylch blynyddol y gyllideb. Gall y Pwyllgor hefyd ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwariant o Gronfa Gyfunol Cymru.

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor**



**Jocelyn Davies (Cadeirydd)**
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



**Peter Black**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gorllewin De Cymru



**Christine Chapman**
Llafur Cymru
Cwm Cynon



**Paul Davies**
Ceidwadwyr Cymreig
Preseli Sir Benfro



**Mike Hedges**
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



**Ann Jones**
Llafur Cymru
Dyffryn Clwyd



**Julie Morgan**
Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd



**Simon Thomas**
Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Yn ystod yr ymchwiliad hwn, roedd Ieuan Wyn Jones yn aelod o'r Pwyllgor.



**Ieuan Wyn Jones**
Plaid Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd / Crynodeb** ..... 5

**Argymhellion** ..... 6

**1. Trosolwg** ..... 7

Cylch Gorchwyl ..... 7

Ardaloedd Menter yng Nghymru ..... 7

**2. Cynllunio ac Adnoddau** ..... 10

Amcanion strategol ..... 10

Manteision dull yr Ardaloedd Menter ..... 12

**3. Cymhellion a gynigir gan bob Ardal Fenter** ..... 14

Rhyddhad Ardrethi Busnes ..... 14

Ein barn ni ..... 15

Lwfansau cyfalaf ..... 15

Ein barn ni ..... 18

Cyllid Cymru ..... 18

Ein barn ni ..... 18

Adnoddau Llywodraeth Cymru (a'r buddsoddiad gan y sector preifat) ..... 19

Ein barn ni ..... 20

**4. Allbynnau a Chanlyniadau** ..... 21

Monitro, gwerthuso a gwerth am arian ..... 21

Ein barn ni ..... 22

Creu gweithgarwch economaidd ychwanegol ..... 22

Ein barn ni ..... 23

**5. Llwyddiannau hyd yma** ..... 24

Ein barn ni ..... 24

**Atodiad A** ..... 25

**Tystion** ..... 28

**Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig** ..... 29

## Rhagair y Cadeirydd / Crynodeb

Pan aethom ati i wneud yr ymchwiliad hwn, yr oeddem yn gwneud hynny'n rhannol am fod Ardaloedd Menter yn dipyn o ddirgelwch. I bob golwg, buont yn araf i ddechrau, ac roedd yn anodd asesu a oeddynt yn gweithio.

Mae'r Pwyllgor wedi siarad â llawer o bobl sy'n eu hadnabod orau, y cadeiryddion, a'r busnesau y maent yn eu gwasanaethu, ac mae nifer o agweddau anhysbys yn parhau. Rydym wedi dysgu bod gan bob un o'r saith Ardal Fenter amcanion strategol - ond nid beth yw'r amcanion hynny. Rydym yn gwybod eu bod wedi gwneud cais am fuddsoddiad - ond nid beth yn union y gwnaethant gais amdano, a gwyddom y bydd disgwyl iddynt ddangos canlyniadau - ond nid sut y bydd llwyddiant yn cael ei fesur.

Wedi dweud hynny, yr ydym wedi dysgu llawer yn ystod ein hymchwiliad. Rydym wedi ymweld â busnesau lle mae'r Ardaloedd Menter yn gwneud gwahaniaeth, ac wedi cael argraff dda o angerdd a gweledigaeth Cadeiryddion y Byrddau. Cawsom ein synnu bod cystadleuaeth dda am le ar y Bwrdd, er gwaethaf y ffaith nad oes gan y Byrddau gyllideb, ac nad yw'r aelodau yn cael eu talu. Mae'r rhain yn arwyddion cadarnhaol.

Fodd bynnag, ein prif ganfyddiad yw ei bod yn rhy gynnar i ddod i unrhyw gasgliadau go iawn.

Bydd cyhoeddi'r dangosyddion perfformiad yn nes ymlaen eleni yn gam mawr ymlaen. Mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi nodi, o fewn terfynau cyfrinachedd masnachol, y bydd hefyd yn cyhoeddi amcanion strategol yr Ardaloedd Menter. Mae'r data ychwanegol hyn yn allweddol er mwyn cael tystiolaeth bod yr Ardaloedd Menter yn gweithio, ac yn rhoi gwerth am arian i drethdalwyr Cymru.

Hoffwn ddiolch i bawb a roddodd dystiolaeth, ac yn arbennig i'r busnesau a swyddogion Llywodraeth Cymru a wnaeth ein hymweliadau ag Ardaloedd Menter Dyfrffordd y Daugleddau ac Ynys Môn yn gymaint o lwyddiant.

## Argymhellion

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru i'w gweld isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth sy'n cyd-fynd â'r argymhellion a'r casgliadau:

**Argymhelliad 1.** Cawsom ein sicrhau bod y cynlluniau strategol yn bod, ond gan nad ydynt wedi'u cyhoeddi, mae'n amhosibl inni graffu arnynt. Er ei bod yn bosibl bod rhesymau masnachol dilys dros gadw rhai o'r manylion yn breifat, rydym yn argymell bod y Gweinidog yn ystyried rhyddhau cymaint o wybodaeth â phosibl i'r cyhoedd, gan gynnwys pob gwybodaeth nad yw'n fasnachol sensitif. (Tudalen 11)

**Argymhelliad 2.** Os mai'r bwriad yw i'r Ardaloedd Menter fod yn gyfrifol am eu cyllidebau eu hunain yn y dyfodol, rydym yn argymell bod trefniadau atebolrwydd cadarn yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau gwerth am arian. (Tudalen 12)

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn sicrhau bod yr Ardaloedd Menter yn ystyried sut orau y gallant sicrhau bod pob busnes yn cael gwybodaeth lawn am y cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnes. (Tudalen 15)

**Argymhelliad 4.** O ystyried bod Llywodraeth y DU wedi derbyn yr egwyddor y gallai Llywodraeth Cymru ariannu lwfansau cyfalaf uwch mewn ardaloedd ychwanegol o fewn yr Ardaloedd Menter presennol, rydym yn argymell bod y Gweinidog yn ystyried a allai hyn fod yn fuddiol, ac os felly, ymhle. (Tudalen 18)

**Argymhelliad 5.** Rydym yn edrych ymlaen at weld dangosyddion perfformiad y Gweinidog yn cael eu cyhoeddi, ac rydym yn argymell bod y Gweinidog yn amlinellu amserlen ar gyfer cyhoeddi'r dangosyddion perfformiad hyn. (Tudalen 22)

# 1. Trosolwg

1. Yn ei gyfarfod ar 24 Ebrill 2013, cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad byr i ystyried y modd y caiff yr Ardaloedd Menter eu defnyddio yng Nghymru ar hyn o bryd.

**Cylch Gorchwyl**

2. Cylch gorchwyl y Pwyllgor oedd:

- Nodi faint o adnoddau Llywodraeth Cymru sy'n cael eu defnyddio ar gyfer yr Ardaloedd Menter, a deall sut mae Byrddau'r Ardaloedd Menter yn llywio hyn.
- Nodi'r allbynnau a'r canlyniadau penodol y disgwylir iddynt gael eu cyflawni gan yr Ardaloedd Menter (megis yr effaith ar yr economi, nifer y swyddi a grëwyd a'r busnesau a gynorthwywyd).
- Ystyried llwyddiannau'r Ardaloedd Menter yng Nghymru hyd yma – yn enwedig mewn perthynas â'r cymorth ariannol a'r cymhellion y maent yn eu cynnig i fusnesau.

3. Mae adroddiad y Pwyllgor yn seiliedig ar y tri maes hyn.

**Ardaloedd Menter yng Nghymru**

4. Mae saith Ardal Fenter[1] yng Nghymru:

| | |
|---|---|
| Ynys Môn | yn canolbwyntio ar y sector Ynni |
| Caerdydd | yn canolbwyntio ar y sector Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol |
| Glannau Dyfrdwy | yn canolbwyntio ar y sector Gweithgynhyrchu Uwch |
| Glyn Ebwy | yn canolbwyntio ar y sector Gweithgynhyrchu Uwch |
| Dyfrffordd y Daugleddau | yn canolbwyntio ar y sector Ynni a'r Amgylchedd |

[1]Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan benodol Llywodraeth Cymru ar gyfer ardaloedd menter (www.ardaloeddmenter.cymru.gov.uk)

| | |
|---|---|
| Sain Tathan | yn canolbwyntio ar y sector Awyrofod |
| Eryri | yn canolbwyntio ar y sector Ynni a'r Amgylchedd a'r sector TGCh |

5. Mae gwefan Ardaloedd Menter Llywodraeth Cymru yn eu disgrifio fel a ganlyn:

> "Ardaloedd daearyddol sy'n cefnogi seilwaith busnes a chymhellion pendant."[2]

6. Mae'r cymorth a'r cymhellion canlynol ar gael:

- Cymorth ar gyfer seilwaith - mae £125 miliwn wedi'i nodi yng Nghynllun Buddsoddi mewn Seilwaith i Gymru ar gyfer Ardaloedd Menter dros bum mlynedd;
- cymorth ar gyfer Ardrethi Busnes - gall busnesau cymwys gael rhyddhad dewisol o hyd at £55,000 y flwyddyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £10 miliwn ar gyfer y cynllun i gyd-fynd â'r £10 miliwn a gafodd drwy gyllid canlyniadol Llywodraeth y DU.
- Lwfansau Cyfalaf Uwch - mae'r rhain yn helpu busnesau i hawlio lwfans blwyddyn gyntaf o 100% ar gyfer y gost cyfalaf o fuddsoddi mewn offer a chyfarpar a wnaed cyn **31 Mawrth, 2017**. Mae Lwfansau Cyfalaf Uwch ar gael yng Nglannau Dyfrdwy, Glyn Ebwy a Dyfrfford y Daugleddau.
- Band eang y genhedlaeth nesaf - cadarnhawyd bod yr Ardaloedd Menter ymhlith yr ardaloedd cyntaf i elwa ar y broses o gyflwyno band eang y genhedlaeth nesaf.
- Proses gynllunio symlach a mwy effeithlon - erbyn hyn gall awdurdodau cynllunio ddefnyddio Gorchmynion Datblygu Lleol newydd i wneud cynllunio yn symlach o fewn yr Ardaloedd Menter.
- Cymorth busnes, a hyfforddiant a sgiliau - gall cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru hefyd gynnwys cynorthwyo busnesau i feithrin perthynas â'r byd academaidd.

[2] Llywodraeth Cymru: gwefan yr ardaloedd menter

7. Mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ('y Gweinidog'), wedi penodi bwrdd a arweinir yn bennaf gan y sector preifat i roi cyngor iddi am anghenion pob Ardal a'r cyfleoedd sydd ynddynt. Dywedodd y Gweinidog yn y Cyfarfod Llawn ar 23 Ebrill 2013 bod y byrddau yn gweithredu heb unrhyw gost i Lywodraeth Cymru.[3]

[3] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, Cyfarfod Llawn, 23 Ebrill 2013

# 2. Cynllunio ac Adnoddau

### Amcanion strategol

8. Er bod pob un o Fyrddau'r Ardaloedd Menter wedi rhoi'r amcanion strategol a nodwyd ganddynt ar gyfer eu hardal i'r Gweinidog, nid yw'r amcanion hynny wedi'u cyhoeddi.

9. O ganlyniad, mae'n anodd bod yn gwbl glir am y dylanwad y mae'r amcanion strategol hyn yn eu cael ar adnoddau Llywodraeth Cymru ac ar benderfyniadau buddsoddi busnesau lleol.

10. Ar 3 Gorffennaf 2012 dywedodd y Gweinidog ei bod wedi gofyn i'r byrddau ddatblygu cynllun strategol ar gyfer pob Ardal, yn disgrifio'r weledigaeth ar gyfer eu hardal, y blaenoriaethau allweddol, y gofynion o ran seilwaith a'r ystyriaethau eiddo. Dywedodd y Gweinidog hefyd y bydd y byrddau yn cynghori ar y camau cyflawni er mwyn ei helpu i gynllunio'r gyllideb.[4] Cadarnhaodd y Gweinidog mewn Datganiad Ysgrifenedig, dyddiedig 28 Tachwedd 2012[5], bod cynlluniau strategol y byrddau wedi dod i law.

11. Fel rhan o'n hymchwiliad, ysgrifennwyd at Gadeiryddion pob un o'r byrddau lleol.

12. Roedd yr ymateb gan Ardal Fenter Glyn Ebwy yn datgan fel a ganlyn: "the terms and conditions of the board members are such that there is no direct visibility of the Welsh Government budgets. However the board will be aware of significant revenue and capital projects that are planned that provide an indication of the financial resource available."[6]

13. Yn yr un modd, yn y papur gan Ddyfrffordd y Daugleddau nodir nad yw Cadeiryddion Byrddau'r Ardaloedd Menter yn gweld cyllidebau mewnol Llywodraeth Cymru.[7]

14. Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 12 Mehefin 2013, cadarnhaodd y ddau Gadeirydd a oedd yn rhoi tystiolaeth nad oedd eu cynlluniau strategol wedi'u costio. Dywedodd yr Athro Nick Bourne:

---

[4] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, Cyfarfod Llawn, 3 Gorffennaf 2013
[5] Datganiad Ysgrifenedig, Yr wybodaeth ddiweddaraf am Ardaloedd Menter yng Nghymru, 28 Tachwedd, 2012
[6] Tystiolaeth ysgrifenedig: Ardal Fenter Glyn Ebwy (Saesneg yn unig)
[7] Tystiolaeth ysgrifenedig: Ardal Fenter Dyfrffordd y Daugleddau (Saesneg yn unig)

> "[..] we do not hold a budget. Certainly, in my case, I was not expecting a response saying, 'This is what the costs are'. I have had discussions with the Minister and with officials acting on behalf of the Minister as to what money is available and the business rates scheme in a general sense, but we have not been given a specific figure; for example, 'This is what we are going to spend in your zone on X, Y or Z'."[8]

15. Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog nad oes cyllidebau gan yr Ardaloedd Menter ar hyn o bryd, ond ei bod yn bosibl y bydd cyllidebau ganddynt yn y dyfodol:

> "In the future, when we look at some of the governance issues, I might consider how important it is that they have pots of money to utilise."[9]

16. Nid oedd yr un o'r busnesau a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor ar 12 Mehefin 2013 yn ymwybodol o'r cynllun strategol ar gyfer eu hardal fenter berthnasol.

17. Pan ofynnwyd yn y Pwyllgor a fyddai mwy o wybodaeth yn cael ei chyhoeddi, dywedodd y Gweinidog mai dyna oedd ei bwriad:

> "I would like to consider publicising more information when it is available, in terms of where their strategies are going. You will appreciate that there might be issues that I will not be able to go into, as they might be commercially sensitive in nature. However, it is important that I revise what is available in the public domain, and I will discuss that with the chairs next week. We will then decide what we can put out in the autumn with regard to their plans."[10]

**Argymhelliad 1: Cawsom ein sicrhau bod y cynlluniau strategol yn bod, ond gan nad ydynt wedi'u cyhoeddi, mae'n amhosibl inni graffu arnynt. Er ei bod yn bosibl bod rhesymau masnachol dilys dros gadw rhai o'r manylion yn breifat, rydym yn argymell bod y Gweinidog yn ystyried rhyddhau cymaint o wybodaeth â phosibl i'r cyhoedd, gan gynnwys pob gwybodaeth nad yw'n fasnachol sensitif.**

---

[8] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2013, paragraff 270
[9] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2013, paragraff 19
[10] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2013, paragraff 12

**Argymhelliad 2: Os mai'r bwriad yw i'r Ardaloedd Menter fod yn gyfrifol am eu cyllidebau eu hunain yn y dyfodol, rydym yn argymell bod trefniadau atebolrwydd cadarn yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau gwerth am arian.**

### Manteision dull yr Ardaloedd Menter

18. Nid yr Ardaloedd Menter hyn yw'r rhai cyntaf yng Nghymru, oherwydd bu fersiwn flaenorol ohonynt yn ystod y 1980au.

19. Cafodd dogfen werthuso Llywodraeth y DU, *Final Evaluation of Enterprise Zones*[11], ei chyhoeddi yn 1995. Roedd y ddogfen hon yn pwyso a mesur profiadau 22 o Ardaloedd Menter yn y DU rhwng 1981/82 a 1992/93. Cafodd y tair ardal yng Nghymru eu hystyried fel rhan o'r gwerthusiad. Rhai o'r prif ganfyddiadau cyffredinol oedd:

- Roedd dros 5,000 o gwmnïau yn y 22 ardal fenter erbyn 1990, ac roedd y rheini'n cyflogi bron i 126,000 o bobl. Ar ôl caniatáu ar gyfer difuddiant a dadleoli[12] a chan gynnwys effeithiau lluosydd tymor byr[13] tybiwyd fod tua 58,000 (46%) o'r 126,000 o swyddi yn rhai ychwanegol.
- Roedd y rhan fwyaf o gwmnïau'r Ardaloedd Menter yn gymharol fach; roedd 11% yno pan ddechreuodd yr Ardal Fenter, roedd 28% yn fusnesau newydd, roedd 23% yn ganghennau neu'n is-gwmnïau, ac roedd 38% yn gwmnïau a drosglwyddodd i'r Ardal Fenter o ardaloedd lleol.
- Cafodd marchnadoedd eiddo eu sefydlu ar safleoedd nad oeddynt yn ddeniadol cyn hynny, a llwyddwyd i ddenu rhenti ar lefelau masnachol hyfyw o ganlyniad i bolisi'r ardaloedd menter. Roedd y rhenti yn yr ardaloedd menter rhwng 10% a 20% yn uwch nag ar gyfer eiddo cyfatebol mewn mannau heblaw'r ardal

[11] Llyfrfa Ei Mawrhydi: *Final Evaluation of Enterprise Zones* ISBN 0 11 753127-8
[12]Lle byddai cwmnïau wedi bod ar safle'r Ardal Fenter beth bynnag, heb ddynodiad Ardal Fenter, cyfeirir at eu cyflogaeth bresennol yn y gwerthusiad fel **'difuddiant'** oherwydd eu bod yn cael cymhellion yr Ardal Fenter heb i hynny newid eu lleoliad sylfaenol a/neu ddylanwadu ar benderfyniadau eraill. Bydd **dadleoliad** yn digwydd pan fydd cwmnïau yn symud i'r Ardal Fenter o rywle arall yn yr ardal leol ('neidio ffiniau' drwy drosglwyddiadau), yn ogystal â chwmnïau sy'n symud i'r ardal leol ac sy'n cael eu cyfeirio i safle'r Ardal Fenter yn hytrach nag i fannau eraill yn yr ardal leol. Gall fod dadleoli yn y farchnad hefyd, lle mae cwmnïau yn yr Ardal Fenter yn mynd â marchnadoedd cystadleuwyr a leolir mewn mannau eraill yn yr ardal leol.
[13] Fel effaith yr incwm cyflogaeth ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r swyddi ychwanegol yn yr ardal.

fenter, ac roedd gwerth tir tua 40% yn uwch yn yr ardaloedd menter nag mewn mannau eraill.

20. Mae dysgu gwersi o'r ardaloedd menter blaenorol wedi bod yn thema gyson yn yr ymchwiliad hwn. Ysgrifennodd Mike Hedges AC erthygl fer ar y pwnc hwn, a gellir gweld yr erthygl yn Atodiad A.

21. Roedd y Pwyllgor yn pryderu bod y gwerthusiad o'r cylch blaenorol o Ardaloedd Menter yn awgrymu bod 28% o'r busnesau yn yr Ardaloedd Menter yn fusnesau newydd, tra bod 38% wedi trosglwyddo yno o'r ardal leol.

# 3. Cymhellion a gynigir gan bob Ardal Fenter

22. Mae amrywiaeth o gymhellion a ffynonellau cymorth yn cael eu cynnig i fusnesau mewn Ardaloedd Menter. Ystyriodd y Pwyllgor pa mor ddeniadol ac effeithiol yw'r rhain o ran annog busnesau i fuddsoddi ac ymsefydlu mewn Ardal Fenter yng Nghymru.

**Rhyddhad Ardrethi Busnes**

23. O dan gynllun Rhyddhad Ardrethi Busnes cyfredol Llywodraeth Cymru, dim ond busnesau sy'n gwneud cais ac sy'n gymwys i gael cymorth fydd yn cael rhyddhad Ardrethi Busnes dewisol o hyd at £55,000 y flwyddyn tan 2015-16. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £10 miliwn ar gyfer y cynllun i gyd-fynd â'r £10 miliwn a gafodd drwy gyllid canlyniadol Llywodraeth y DU. Mae papur y Gweinidog yn nodi y gwariwyd bron £800,000 ar y cynllun yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Daeth y cylch ymgeisio diweddaraf i ben ar 8 Gorffennaf, 2013.[14]

24. Er cymhariaeth, roedd Ardaloedd Menter y 1980au yn cynnig eithriad llwyr rhag ardrethi'r awdurdod lleol (ond nid taliadau dŵr) i bob eiddo diwydiannol a masnachol (gan gynnwys eiddo manwerthol) yn yr ardaloedd menter.

25. Canfu dogfen Llywodraeth y DU 'Final Evaluation of Enterprise Zones', a gyhoeddwyd yn 1995, mai'r atyniad mwyaf pwysig i gwmnïau wrth benderfynu symud i Ardaloedd Menter, oedd eu bod yn cael rhyddhad ardrethi busnes.

26. Mae rhai, ond nid pob un, o bapurau Byrddau'r Ardaloedd Menter yn cynnwys gwybodaeth am nifer y busnesau sydd wedi elwa ar y Cynllun Ardrethi Busnes. Mae papur Ardal Fenter Glyn Ebwy yn nodi bod chwech o gwmnïau yn yr Ardal Fenter wedi cael eu cymeradwyo i gael cymorth o dan y cynllun Ardrethi Busnes, a oedd yn werth £193,000. Mae'r papur yn sôn bod y canlyniad hwn braidd yn siomedig ac yn crybwyll bod camau gweithredu ar y gweill i gynyddu lefel yr ymgysylltu â busnesau cynhenid yn yr ardal.

27. Mae papur Ardal Fenter Dyfrffordd y Daugleddau yn nodi bod 17 o fusnesau yn yr ardal fenter wedi elwa o'r cynllun.

---

[14] Tystiolaeth ysgrifenedig: Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

28. Cyfaddefodd y Gweinidog fod gwersi wedi'u dysgu o'r cylch cyntaf o geisiadau. Roedd yr amser a arweiniodd at y cylch cyntaf hwnnw yn fyr, ac felly ychydig a fanteisiodd ar y cynllun mewn rhai ardaloedd. Dywedodd:

> "The business rate relief was very popular—we had 60-odd applications, and about 40 received funding. It was a mixed approach across the enterprise zones... We have learned the lessons from that and done a lot of training, and we have a bigger window of opportunity for how we will deal with the business rates this time around. We have had a much more vigorous look at the marketing campaign. To date, we have had some 6,000 hits on our website on these issues. I think that we are getting to grips with some of the issues now and learning the lessons. The turnaround was too quick last time, perhaps, and there was not enough advertising of the different business rates and support issues."[15]

***Ein barn ni***

**Fe'n synnwyd gan y gwahaniaethau yn y gwahanol Ardaloedd Menter o ran y busnesau a gafodd ryddhad ardrethi busnes. Mae'n amlwg i ni bod mwy wedi manteisio ar y cymhelliant hwn lle'r oedd y Byrddau wedi gweithio gydag awdurdodau lleol yn systematig i dargedu cwmnïau a allai gael budd o'r cynllun. Roedd y busnesau hynny y buom yn ymweld â hwy yn bendant bod y rhyddhad ardrethi hwn, yn ei dro, yn rhyddhau eu harian hwythau, gan eu galluogi i fuddsoddi.**

**Argymhelliad 3: Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn sicrhau bod yr Ardaloedd Menter yn ystyried sut orau y gallant sicrhau bod pob busnes yn cael gwybodaeth lawn am y cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnes.**

## Lwfansau cyfalaf

29. Mae lwfansau cyfalaf yn caniatáu i fusnesau dynnu costau asedau cyfalaf penodol, fel offer neu beiriannau, o'u hincwm trethadwy. Maent yn cymryd lle dibrisiant masnachol, nad yw'n cael ei ganiatáu ar gyfer treth.

---

[15] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2013, paragraff 50

30. Mae unrhyw wariant cymwys ar offer neu beiriannau, nad yw'n destun hawliad i'r lwfans buddsoddi blynyddol, neu lwfansau blwyddyn gyntaf, yn gymwys ar gyfer lwfansau gostwng (*writing-down allowances*), ar naill ai 18% neu 8% y flwyddyn (y cyfraddau sy'n gymwys o fis Ebrill 2012), yn dibynnu ar y math o ased ydyw.

31. Cyflwynwyd y Lwfansau Cyfalaf Uwch yn *Neddf Cyllid 2010*[16], ac maent yn darparu 100% o lwfansau blwyddyn gyntaf i gwmnïau sy'n buddsoddi mewn offer neu beiriannau i'w defnyddio'n bennaf mewn ardaloedd cymorth penodol yn yr Ardaloedd Menter. Mae'r mesur hwn yn berthnasol i wariant dros gyfnod o bum mlynedd, o 1 Ebrill 2012 i 31 Mawrth 2017, yn gynwysedig, a rhaid i'r ardal lle caiff yr offer neu'r peiriannau eu defnyddio fod yn ardal a gynorthwyir ar yr adeg y caiff yr arian ei wario. Yn ogystal, rhaid i'r offer neu'r peiriannau beidio â chael eu cadw i'w defnyddio mewn ardal y tu allan i'r ardal gymorth ddynodedig am gyfnod o bum mlynedd.

32. Yng Nghymru, mae'r lwfansau cyfalaf uwch ar gael ar safleoedd dynodedig penodol yn Ardaloedd Menter Glannau Dyfrdwy, Glyn Ebwy a Dyfrffordd y Daugleddau. Mae'r dystiolaeth a gafwyd gan bob un o'r Ardaloedd Menter yn awgrymu na wnaed unrhyw ddefnydd o'r lwfansau cyfalaf uwch gan fusnesau hyd yma.

33. Yn rhan gyntaf adroddiad Comisiwn Silk, Grymuso a Chyfrifoldeb: Pwerau Ariannol i Gryfhau Cymru (Tachwedd 2012)[17], cyflwynir y posibilrwydd y gallai Llywodraeth Cymru 'brynu' Lwfansau Cyfalaf Uwch ychwanegol gan y Trysorlys. Nodir yn yr adroddiad:

> "Gan mai yng Nghymru y mae'r Gwerth Ychwanegol Crynswth y pen isaf o holl ranbarthau'r DU, credwn fod lle i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ystyried a allai cyfran fwy o'r Ardaloedd Menter yng Nghymru gael mantais o lwfansau cyfalaf uwch. Gan fod strwythur eisoes ar gyfer lwfansau cyfalaf gwahaniaethol o fewn y Deyrnas Unedig drwy ddefnyddio Ardaloedd Menter, fe ellid ymestyn hyn yn enwedig os oes tystiolaeth bod y polisi'n effeithiol.
>
> "Wrth gwrs, byddai cost yn gysylltiedig ag ymestyn y defnydd o lwfansau cyfalaf uwch o fewn Ardaloedd Menter penodedig yng

[16] Deddf Cyllid 2010
[17] Comisiwn Silk: Grymuso a Chyfrifoldeb: Pwerau Ariannol i Gryfhau Cymru, (Tachwedd 2012)

Nghymru a byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru ddwyn y gost honno ac asesu costau a buddion polisi o'r fath.

"Argymhelliad

"A.13. Rydym yn argymell creu modd i gynnig y lwfansau cyfalaf uwch mewn mwy o ardaloedd menter yng Nghymru yn unol â rheolau ar gymorth gwladwriaethol ac ar yr amod bod Llywodraeth Cymru yn talu'r gost gynyddrannol."[18]

34. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei hymateb manwl ar 21 Tachwedd 2013. Mae'n nodi fel a ganlyn:

"Mae Llywodraeth y DU yn derbyn argymhelliad y Comisiwn y gall Llywodraeth Cymru ariannu lwfansau cyfalaf uwch mewn mwy o ardaloedd Menter yng Nghymru, sy'n cydymffurfio â'r meini prawf sefydledig, yn amodol ar y rheolau ar gymorth gwladwriaethol a'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r cynllun."[19]

35. Dywedodd Lucas Boissevain[20] wrth y Pwyllgor:

"I am a strong believer that the accelerated capital allowance scheme that was rolled out in 1981-82, and came down from 75% to 50% to 25%, was one of the primary drivers for pulling us out of the tail end of the 1970s. It is easily understood and available in equal measure to all, or it was at the time, and finance directors and commercial directors of businesses could understand it. You understood the window of opportunity that it represented and it accelerated investment at a difficult time."[21]

36. Awgrymodd Mr Boissevain hefyd y gallai'r Lwfansau Cyfalaf Uwch fod o gryn fantais i'r busnesau hynny a allai eu cael ond y dylent gael eu cymhwyso'n fwy cyson, nid dim ond yng Nghymru, ond yn y DU hefyd.[22]

---

[18] Comisiwn Silk: Grymuso a Chyfrifoldeb: Pwerau Ariannol i Gryfhau Cymru, (Tachwedd 2012)
[19] Llywodraeth y DU, Grymuso a Chyfrifoldeb, 21 Tachwedd, 2013, tudalen 13
[20] Cyfarwyddwr Cyllid Mustang Marine sydd wedi ei leoli yn Ardal Menter Dyfrfford y Daugleddau
[21] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2013, paragraff 17
[22] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2013, paragraff 19

*Ein barn ni*

**Yn y dyddiau cynnar hyn, ychydig iawn o geisiadau llwyddiannus a gafwyd am y Lwfansau Cyfalaf Uwch. Eto i gyd, mae'n amlwg eu bod, o bosibl, yn un o'r arfau mwyaf pwerus sydd gan yr Ardaloedd Menter.**

**Argymhelliad 4: O ystyried bod Llywodraeth y DU wedi derbyn yr egwyddor y gallai Llywodraeth Cymru ariannu lwfansau cyfalaf uwch mewn ardaloedd ychwanegol o fewn yr Ardaloedd Menter presennol, rydym yn argymell bod y Gweinidog yn ystyried a allai hyn fod yn fuddiol, ac os felly, ymhle.**

## Cyllid Cymru

37. Yn ystod ein hymweliad ag Ardal Fenter Dyfrffordd y Daugleddau, cafodd yr Aelodau gyfle i wrando ar gyflwyniad gan Cyllid Cymru a luniwyd ar gyfer busnesau yn yr ardal fenter. Roedd y Pwyllgor yn synnu nad oedd Cyllid Cymru wedi rhoi unrhyw fesurau arbennig ar waith i gefnogi busnesau mewn Ardaloedd Menter o'r cychwyn cyntaf.

38. Yn dilyn hynny, ar 21 Hydref, 2013, cyhoeddodd Cyllid Cymru y byddai busnesau ym mhob un o Ardaloedd Menter Cymru yn gallu elwa ar ostyngiad o 2% ar y cyfraddau sydd i’w talu am fenthyciadau o Gronfa JEREMIE Cymru, Cronfa Fuddsoddi Busnesau Bach a Chanolig Cymru, a Chronfa Fenthyciadau i Ficrofusnesau Cymru.[23]

*Ein barn ni*

**O ganlyniad i'r hyn a ddysgwyd gennym yn ystod ein hymchwiliad i Ardaloedd Menter am y modd y mae Cyllid Cymru yn gweithredu, cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad byr i'r sefydliad. Mae'r ymchwiliad hwn ar fin dechrau a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno yn 2014.**

---

[23] Datganiad i'r wasg gan Cyllid Cymru: Arbedion cyfraddau llog i fusnesau bach a chanolig ym Mharthau Menter Cymru (21 Hydref, 2013)

**Adnoddau Llywodraeth Cymru (a'r buddsoddiad gan y sector preifat)**

39. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi pennu £125 miliwn dros gyfnod o bum mlynedd[24] yng Nghynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru ar gyfer Ardaloedd Menter.

40. *Mae Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru: Adroddiad Blynyddol 2013,*[25] a gyhoeddwyd ar 11 Mehefin 2013, yn awgrymu bod £46 miliwn yn ychwanegol wedi'i ddyrannu gan Lywodraeth Cymru "i helpu i ddatblygu ein Hardaloedd Menter a chymorth ehangach i fusnesau/gweithgarwch twf economaidd."

41. Nodir yn yr adroddiad:

> "Mae pecynnau o fuddsoddiad ychwanegol gan gronfeydd cyfalaf wrth gefn a gyhoeddwyd ers mis Mai 2012 (gwerth cyfanswm o tua £462m), yn uniongyrchol, wedi darparu cyllid ychwanegol, gwerth £136m yn 2012-13, £159m yn 2013-14 a £167m yn 2014-15, ar gyfer cyflawni blaenoriaethau seilwaith.
>
> "Prif ddiben y buddsoddiad hwn oedd hybu twf a swyddi, a helpu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon o safon, yn y tymor canolig a'r hirdymor. Yn y byrdymor rhagwelwn y bydd y buddsoddiad yn creu tua 8,000 o swyddi yn ystod camau adeiladu'r gwahanol brosiectau.
>
> "O'u hystyried yn nhermau ein saith blaenoriaeth graidd a nodir yng Nghynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, mae'r dyraniadau cyfalaf ychwanegol hyn wedi cynyddu buddsoddiad yn sylweddol drwy'r canlynol:
>
> - £88.7m i helpu i wella'r rhwydwaith trafnidiaeth yng Nghymru, ynghyd â £29m i ddiogelu rhwydweithiau seilwaith rhag llifogydd ac erydu arfordirol.
> - £10m i helpu i wella rhwydweithiau cyfathrebu
> - £15m i helpu i ddatblygu'r diwydiant ynni yng Nghymru

[24] Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru: Adroddiad Blynyddol 2013
[25] Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru: Adroddiad Blynyddol 2013

- £46m i helpu i ddatblygu ein Hardaloedd Menter a chymorth ehangach i fusnesau / gweithgarwch twf economaidd ehangach
- £99.7m i gefnogi buddsoddiad pellach mewn tai
- £98m i helpu i wella ansawdd yr ystad addysgol, yn enwedig ysgolion
- £75.3m i helpu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus mwy effeithlon a darbodus."[26]

***Ein barn ni***

**O ystyried nad ydym yn gwybod yn union faint o adnoddau y gofynnir amdanynt gan Fyrddau'r Ardaloedd Menter i gyflawni eu hamcanion strategol, nid oes modd mesur a yw'r adnoddau a roddir gan Lywodraeth Cymru yn ddigonol.**

[26] Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru: Adroddiad Blynyddol 2013

# 4. Allbynnau a Chanlyniadau

### Monitro, gwerthuso a gwerth am arian

42. Yn ôl papur tystiolaeth Ardal Fenter Glyn Ebwy: “the Enterprise Zone does not have specific job creation or number of businesses supported targets, these are a measure of the Advanced Manufacturing and Materials Sector itself and not the Enterprise Zone performance. As set out in the strategic plan the EZ’s are long term in nature with benefits realisation occurring during and after the intervention has ended.”[27]

43. Mae papur y Gweinidog yn nodi fel a ganlyn:

> “Y gobaith tymor hir yw y gwnaiff yr Ardaloedd Menter sbarduno’r economi leol i dyfu a chreu a diogelu swyddi; bod yn gatalydd twf i rannau eraill y wlad; gwneud yr Ardaloedd Menter a Chymru’n fwy deniadol yn gyffredinol i fuddsoddwyr; a gwneud economi Cymru’n fwy cystadleuol.”[28]

44. Mae’r dystiolaeth a roddwyd gan Gadeiryddion Byrddau'r Ardaloedd Menter yn cyfeirio at y ffaith bod Llywodraeth Cymru yn gobeithio cyhoeddi dangosyddion erbyn diwedd y flwyddyn hon a bod y Gweinidog yn ceisio barn byrddau'r Ardaloedd Menter ynghylch y dangosyddion hynny. Cadarnhaodd y Gweinidog hyn yn ei sesiwn dystiolaeth:

> “We have been struggling with some of the issues around looking at key performance indicators... It is a question of whether you do a straightforward ‘jobs created’ thing, which we do not think is relevant. We think that that approach has already run into problems across our border.
>
> “So, there are a number of options. Do we just count the new jobs, or jobs, in which case you must make sure that you have the proper baseline figures? There is then my forecast and how I will do other wider measurements of that. Can I say that it is purely as a result of enterprise zone interventions that I have had these jobs, or is it, as the Chair alluded to, that some companies will come to an area anyway without any of this? So,

---

[27] Tystiolaeth ysgrifenedig: Ardal Fenter Glyn Ebwy (Saesneg yn unig)
[28] Tystiolaeth ysgrifenedig: Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

> we are currently developing a set of performance indicators that will mean that we could intelligently look at enterprise zones. I think that that is the only way that we can deal with that."[29]

***Ein barn ni***

**Rydym yn gwerthfawrogi'r anhawster o ddiffinio llwyddiant yr Ardaloedd Menter, a sicrhau bod yr holl ganlyniadau yn cael eu cofnodi'n briodol. Fodd bynnag, mae'n hollbwysig bod ffordd gadarn o fonitro a yw'r Ardaloedd Menter wedi cyflawni eu hamcanion.**

**Argymhelliad 5: Rydym yn edrych ymlaen at weld dangosyddion perfformiad y Gweinidog yn cael eu cyhoeddi, ac rydym yn argymell bod y Gweinidog yn amlinellu amserlen ar gyfer cyhoeddi'r dangosyddion perfformiad hyn.**

**Creu gweithgarwch economaidd ychwanegol**

45. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog sut y byddai'n sicrhau bod yr Ardaloedd Menter newydd yn hybu twf newydd, yn hytrach na symud busnesau i mewn i'r Ardaloedd Menter o rywle arall.

46. Dywedodd y Gweinidog:

> "I think that we have learned some of the lessons from the previous engagement. You cannot have business rate relief if the company is being displaced. We learned that lesson straight away. Enhanced capital allowances are only for new investments; you cannot have it if you are already in there. It is quite important that those two safeguards are already there. With some of the issues, a mixed picture is already emerging, and tax relief is the most attractive element of the package of benefits. You also have the high cost of job estimates to take into account. It is an exceptionally difficult and complex area, but we are very aware of the displacement issues. With the schemes that have come in, we have tried to ensure that we do not encourage that."[30]

---

[29] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2013, paragraff 56
[30] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2013, paragraff 43

*Ein barn ni*

**Rydym yn falch o glywed bod y Gweinidog wedi ystyried yr hyn a ddysgwyd o'r Ardaloedd Menter yn y gorffennol, a'i bod yn awyddus i osgoi'r maglau hynny.**

## 5. Llwyddiannau hyd yma

47. Yn y dyddiau cynnar hyn, mae'n anodd mesur llwyddiannau prosiect yr Ardaloedd Menter ar raddfa fawr. Heb ddull ffurfiol o fesur perfformiad, mae'n anodd dweud yn bendant a ydynt yn llwyddo. Yn yr un modd, gan fod yr Ardaloedd gwahanol yn mynd ar drywydd strategaethau gwahanol, a hynny o fannau cychwyn gwahanol, gallai llwyddiant i un, fod yn fethiant llwyr i un arall.

48. Fodd bynnag, mae llwyddiannau clir ar lawr gwlad. Yn sgîl ymweliadau'r Pwyllgor ag Ardal Fenter Dyfrffordd y Daugleddau ac Ardal Fenter Ynys Môn, gwelwyd bod cwmnïau unigol yn elwa ar eu lleoliad o fewn Ardaloedd Menter, ac roeddem yn falch o weld llwyddiant a brwdfrydedd y busnesau bach a chanolig hynny a gafodd fudd o'r cynllun.

***Ein barn ni***

**Ar hyn o bryd, nid oes modd mesur yn llawn yr hyn a gyflawnwyd hyd yn hyn, ond rydym yn ymwybodol bod busnesau unigol eisoes yn elwa. Nid ateb cyflym yw'r Ardaloedd Menter, a byddwn yn awyddus i fonitro eu llwyddiant neu eu methiant yn y tymor hirach.**

# Atodiad A

Ysgrifennodd Mike Hedges AC erthygl ar gyfer y Sefydliad Materion Cymreig am y gwersi sydd i'w dysgu o'r model blaenorol o Ardaloedd Menter yng Nghymru (12 Gorffennaf, 2013).

**Mike Hedges asks whether we can learn lessons from past failures of a recycled economic development policy – (12 July, 2013)**

In the early 1980s a number of Enterprise Zones were created throughout Britain including in Wales the lower Swansea valley, Delyn and Milford Haven. Based upon the principle that all policy ideas are recycled every 20 to 30 years – after those involved first time around have changed jobs or retired – then Enterprise Zones have returned once more and are now official government policy again.

Their purpose was to stimulate private sector economic activity, thus creating employment in less well-off areas. This was to have been achieved using tax incentives, including:

- 100 per cent tax allowances for capital expenditure on industrial and commercial buildings.
- Exemption from paying business rates for 10 years from the date of the building being occupied.

Developers and investors also benefitted from simplified town planning, where planning permission was not required for new developments provided they complied with the published planning regime for the zone. Some other minor benefits were also available, including exemption from training board levies and expedited custom facilities.

Initially, retail was excluded from Enterprise Zones but in many, including Swansea, it became a significant player. In Swansea the term Enterprise Zone is often used as an alternative for out of town shopping area. Wikipedia describes the Swansea Enterprise Zone thus, “The regeneration has attracted many light industries, offices and in particular retail outlets to Swansea.”

In early 2011 a report from the think tank Centre for Cities, and the not-for-profit organisation The Work Foundation both said the concept of enterprise zones and parks was out-dated. The Work Foundation report said, “Most of the areas that had such zones are still struggling today — places like Middlesbrough, Speke, Hartlepool and Swansea.” Most of the jobs created had simply been displaced from other areas. It continued:

> “Evidence from previous Enterprise Zones suggest that up to 80 per cent of the jobs they create are taken from other places; that Enterprise Zones do very little to promote lasting economic prosperity. Most Enterprise Zones create a short-term boom, followed by a long-term reversal back into depression; and Enterprise Zones are hugely expensive. Evidence from the 1980s suggests that Enterprise Zones cost at least £23,000 per new job they create.”

According to a 1987 evaluation by the Department of the Environment, only 13,000 of the 63,300 jobs created in Enterprise Zones were new jobs, with the remainder displaced from within the area. The relatively small size of the Enterprise Zones meant that, in many cases they displaced jobs from within the same town or city. A 1999 study, UK Enterprise Zones and the Attraction of Inward Investment by Jonathan Potter and Barry Moore (here), suggested that around 25 per cent of new jobs were displaced from within the same town or city. This type of local displacement destabilises local economies by artificially enticing businesses into less competitive areas. The result is that other industrial parks outside the zone are left with empty units.

Enterprise Zones were also created in the USA, especially California where it has been the state’s major economic development intervention. However, a report published by the Public Policy Institute of California in 2009 concluded that it had failed to achieve its key goal of increasing jobs. The report

> “...contrasts employment growth in Enterprise Zones with comparison areas and concludes that the program, on average, has no effect on job or business creation. The report recommends a re-examination of the program, which offers tax credits and incentives to businesses in 42 designated zones

> throughout the state. The program’s cost in the next fiscal year is estimated at nearly half a billion dollars.”

The second interim report on Enterprise Zones by the Department of the Environment in 1995 identified that:

> “…in general a significant proportion of the rates relief available to tenants of properties on Enterprise Zones have been absorbed into the rental payments of new tenants, through higher rental values on Enterprise Zones relative to the control group off zone… assuming capital allowances are shared between investors, developers and landowners (rather than being passed on to tenants) the majority of the benefits from capital allowances appear to have gone to the investors…. Enterprise Zones do not appear to have been successful in encouraging hives of companies with close integration in the pursuit of mutual business development.”

The Swansea Enterprise zone speeded up the regeneration of the lower Swansea Valley which was a very good thing. At the same time, however, it created a large out of town retail centre that had a detrimental effect on the city centre.

The generally negative account of the impact of Enterprise Zones in the 1980s took them off the agenda for the next 25 years. Now they have returned the challenge must be to learn the lessons from the first wave and to not make the same mistakes with the new Enterprise Zones.

## Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r sesiynau tystiolaeth lafar yn - [http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=1243](http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=1243)

*12 Mehefin 2013*

| | |
|---|---|
| Yr Athro Nick Bourne | Cadeirydd Ardal Fenter Dyfrffodd y Daugleddau |
| Gareth Jenkins | Cadeirydd Ardal Fenter Glyn Ebwy |
| Mike Corne | Partner a Cyfarwyddwr Masnachol, eCube Solutions |
| Lucas Boissevain | Cyfarwyddwr Cyllid, Mustang Marine |

*26 Mehefin 2013*

| | |
|---|---|
| Edwina Hart AC | Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth |
| Tracey Burke | Cyfarwyddwr Strategaeth, Llywodraeth Cymru |
| Rob Hunter | Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad, Llywodraeth Cymru |

## Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r sesiynau tystiolaeth lafar yn http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=6587&Opt=0

*Sefydliad*

Ardal Fenter Ynys Môn

Ardal Fenter Canol Caerdydd

Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy

Ardal Fenter Glyn Ebwy

Ardal Fenter Dyfrffordd y Daugleddau

Ardal Fenter Sain Tathan/Maes Awyr Caerdydd

Ardal Fenter Eryri

eCube Solutions

Mustang Marine

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth